# Cynhelir Dydd Gwerin Ewrop cyntaf oll ar ddydd Sadwrn 23ain Medi 2023

**Prosiect Peilot yw Dydd Gwerin Ewrop 2023, o dan ofal aelodau The European Folk Newtwork (EFN) gyda nawdd ariannol o'r Undeb Ewropeaidd drwy raglen MusicAIRE. Amcan y prosiect yw sefydlu Dydd Gwerin Ewrop fel dyddiad pwysig blynyddol dros y cyfandir cyfan.**

## ◇ Cefndir a Phwrpas

Daw syniad gwreiddiol Dydd Gwerin Ewrop allan o drafodaethau o du fewn y rhwydwaith ac mae'n ddigwyddiad sy'n dod yn uniongyrchol o amcanion y rhwydwaith : **i ddangos pa mor boblogaidd yw'r celfyddydau traddodiadol byw (cerdd, cân a chwedleua) ledled Ewrop a faint ohonom ni sydd, un ffordd na'r llall yn cymryd rhan ynddynt.**

## ◇ Pwy all gymryd rhan yn Nydd Gwerin Ewrop?

**Mae'r diwrnod yn agored i unrhyw berson, band, sefydliad, cymuned, gweithdy, grŵp lleol – i unrhyw un sydd am ymuno â** ni gyda gweithgaredd dyn ni'n gallu disgrifio yn 'werin' – ai yn fyw neu ar-lein. **Croeso cynnes i bawb,** boed yn aelod o EFN neu beidio.

## ◇ Sut gallaf cyfranogi i Ddydd Gwerin Ewop?

Fedrwch

- Recordio cân – un hen neu un newydd ac uwchlwytho i'ch cyfryngau cymdeithasol a'i thagio gydag #europeanfolkday.
- cynnal gŵyl werin gydag actiau byw yn ystod adeg, neu yn agos, i 23 Medi a'i marchnata fel rhan o Ddydd Gwerin Ewrop.
- Ac os yn newyddiadydd/darlledydd, medrwch roi canolbwynt ar gân neu artist gwerin yn eich cyfrwng... neu nelltio'r diwrnod oll i'r pwnc...cyhoeddi Dydd Gwerin Ewrop yn eich cyfryngau lleol a chenedlaethol.

Oes angen cymorth? Gofynnwch i ni! Mae gyda ni aelodau dros Ewrop cyfan sydd yn gallu eich cefnogi chi.

**Does dim terfyn ar sut a ble medrwch gyfranogi.** Ffaelu meddwl am rywbeth? Cysylltwch â ni drwy e-bost (isod) neu edrych ar y wefan (isod hefyd) ac mi fyddwn ni'ch helpu dod o hyd i syniadau.

Ar ôl ichi benderfynu ar sut dych chi am gymryd rhan, rhowch ini'r manylion ar y wefan, ar y dudalen 'Participate' trwy gynnig y wybodaeth i'n bâs data. Fe ychwanegir eich digwyddiad yno ac ar fap Ewrop. Dros y misoedd nesaf, byddwn ni'n rhannu ein progres gyda'r byd trwy ddod â phob gweithgaredd Dydd Gwerin Ewrop i'r amlwg. Mi allwch ymuno â'n rhestr e-bost Dydd Gwerin Ewrop yma.

## ◇ Sut gaf i gysylltu â'r tîm?

Mae gyda ni thîm bychan sy'n trefni'r diwrnod ac mae gan bob un cyfrifoldeb penodol:

- i ofyn am gymryd rhan, cysylltwch ag Eric ar participate@europeanfolkday.eu
- os ydych chi'n gweithio yn y cyfryngau, cysylltwch ag Araceli ar media@europeanfolkday.eu
- am wybodaeth gyffredin neu rywbeth arall, cysylltwch â Nod ar info@europeanfolkday.eu

**Dyn ni'n edrych ymlaen at weld pawb ymuno ym menter newydd Traws-ewropeaidd hon i gefnogi a dathlu'r celfyddydau traddodiadol o bob cymuned Ewrop!**

**Dych chi'n gwneud Diwrnod Gwerin Ewropeaidd, i chi ac i ni!**

Translation into Cymraeg: Danny KilBride